# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Chwefror 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymorth ariannol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw un o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo wedi'i roi i'r Eisteddfod Genedlaethol yn ystod pob un o'r pum mlynedd ddiwethaf. (WAQ32156)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymorth ariannol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw un o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo wedi'i roi i unrhyw Eisteddfod, ac eithrio'r Eisteddfod Genedlaethol, yr Eisteddfod Ryngwladol ac Eisteddfod yr Urdd, yn ystod pob un o'r pum mlynedd ddiwethaf. (WAQ32158)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymorth ariannol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw un o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo wedi'i roi i'r Eisteddfod Ryngwladol yn ystod pob un o'r pum mlynedd ddiwethaf. (WAQ32159)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfanswm y gost flynyddol o ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl oedrannus. (WAQ32119)

**David Davies (Mynwy);** Faint o weithwyr Awdurdod Datblygu Cymru sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig amlwg. (WAQ32122)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**David Davies (Mynwy);** Faint o athrawon sydd wedi'u diswyddo yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf. (WAQ312115)

**John Marek (Wrecsam);** Yn dilyn yr ateb a roddodd ar 9 Chwefror (WAQ32005) ynghylch ad-drefnu ysgolion uwchradd yn Wrecsam, a wnaiff y Gweinidog roi copïau o'r ddau adroddiad y cyfeiriwyd atynt yn y llyfrgell. (WAQ32118)

**David Davies (Mynwy);** Faint o weithwyr ELWa sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig amlwg. (WAQ32123)

**David Davies (Mynwy);** Faint o bobl sydd wedi ennill cymwysterau fel (a) plymeriaid a (b)

trydanwyr yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf. (WAQ32125)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Davies (Mynwy);** Faint o feddygon sydd wedi cael eu diswyddo yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf. (WAQ312116)

**David Davies (Mynwy);** Faint o nyrsys sydd wedi cael eu diswyddo yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf. (WAQ312117)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru ar ba ddyddiadau y penodwyd pob un o gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG ers 1997. (WAQ32121)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl benderfyniadau a wnaed gan y Swyddfa Gymreig y mae hi, ers hynny, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi'u diddymu. (WAQ32124)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Am faint o amser y mae'n rhaid aros ar hyn o bryd er mwyn cael Teclyn Clywed Digidol ar y GIG. (WAQ32147)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A oes ganddi unrhyw gynlluniau i leihau'r amserau aros ar gyfer cael Teclyn Clywed Digidol ar y GIG. (WAQ32146)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y bydd y prosiect Cymunedau yn Gyntaf yng Nghlydach Vale yn cael ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. (WAQ32120)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y bydd y Gweinidog yn penderfynu ar y cais a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2003 gan Swyddfa'r Post Llandinam o dan y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post. (WAQ32153)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd yn penderfynu ar y ceisiadau o dan y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post a gafodd eu pwyso a'u mesur, a'u gwerthuso, yn unol â'r cyhoeddiad a wnaed ym mis Hydref 2003. (WAQ32154)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o amser a gymerir, ar gyfartaledd, i ddelio â cheisiadau o dan drydedd rownd y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post. (WAQ32155)